**Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus**
—
**Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCCGG@Senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddCCGG
0300 200 6565
—
**Senedd Cymru**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddPAPA@senedd.wales
senedd.wales/SeneddPAPA
0300 200 6565

Dyfed Edwards
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

07 Mehefin 2023

Annwyl Dyfed

**Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr - Adroddiad EY**

Diolch am eich e-bost dyddiedig 5 Mehefin 2023.

Caiff sail gyfreithiol y Pwyllgor dros wneud cais am yr adroddiad ei wneud o dan adran 37 (1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (fel y'i diwygiwyd).

Mae adran 37(1)(b) yn darparu y gall y Senedd ei gwneud yn ofynnol i unrhyw berson gyflwyno at ddibenion y Senedd (neu Bwyllgor o'r Senedd, yn yr achos hwn, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus), dogfennau ym meddiant, neu o dan reolaeth, yr unigolyn neu'r sefydliad o dan sylw, mewn perthynas ag unrhyw fater sy'n berthnasol i arfer swyddogaethau Gweinidogion Cymru.

Mae adran 38(1) yn galluogi'r Clerc i gyflwyno hysbysiad sy'n ei gwneud yn ofynnol i unigolyn ddod i gyfarfod o'r Pwyllgor neu gyflwyno dogfennau. Mae darpariaeth hefyd i'w gwneud yn drosedd os yw person a gaiff hysbysiad o dan 38(1) yn gwneud unrhyw un o'r pethau a restrir yn adran 39(1) (mae'r rhain yn cynnwys gwrthod bod yn bresennol mewn achos neu wrthod cyflwyno dogfennau). Anaml y bydd angen i bwyllgorau arfer y pŵer cyfreithiol hwn, o gofio bod tystion yn gyffredinol yn ceisio cynorthwyo'r Senedd, fel deddfwrfa genedlaethol. Gall hyn fod o fudd i enw da'r rhai y gofynnir iddynt roi tystiolaeth neu gyflwyno dogfennau.

Ar nodyn cyffredinol, mae cynnwys yr adroddiad yn ymwneud â mater archwilio o ganlyniad i waith a wnaed gan Archwilydd Cyffredinol Cymru. Fel prif bwyllgor archwilio'r Senedd, sy'n ystyried materion a gyflwynir iddo gan yr Archwilydd Cyffredinol, mae mandad clir i'r Pwyllgor ystyried cynnwys yr adroddiad hwn a chraffu arnynt.

Hyderaf y byddwch yn ystyried y mater hwn yn ofalus a byddwn yn ddiolchgar pe gallech ddarparu ymateb o sylwedd cyn gynted â phosibl.

Cofion

Mark Isherwood AS

Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.
We welcome correspondence in Welsh or English.